



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

Cyllideb Atodol

2023-2024

Nodyn Esboniadol

Mehfin 2023

llyw.cymru

Cynnwys

1. Rhagymadrodd	2
2. Dyraniadau Allweddol	3
3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2023-24	6
4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion	15
5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion	17
6. Newidiadau i Gronfeydd wrth Gefn	19
7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	29
Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb	31
Atodiad 2 – Ailddatgan y Gyllideb Derfynol 2023-24	33
Atodiad 3 – Geirfa	38

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon i:
wag-en@mailuk.custhelp.com

1. Rhagymadrodd

- 1.1** Heddiw cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2023-24, yn unol â Rheol Sefydlog 20. Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnig newidiadau i'r gyllideb derfynol ar gyfer 2023-24 fel y'i cymeradwywyd gan Senedd Cymru ('y Senedd') ar 7 Mawrth 2023.
- 1.2** Mae'r gyllideb atodol hon yn cysoni dyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt, a throsglwyddiadau o fewn portffolios a rhyngddynt, ac yn cynnwys addasiadau i gyllideb Cymru i adlewyrchu effaith digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU.
- 1.3** Ceir crynodeb o'r newidiadau a gynigir yn y gyllideb hon yn y penodau canlynol.
- 1.4** Mae'r ddogfen hon yn ategu'r 'Tablau Llinellau Gwariant y Gyllideb (BEL)' manwl sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Dyraniadau Allweddol

2.1 Cyflog Athrawon

Mae'r gyllideb atodol hon yn cynnwys £27.962m sy'n cael ei dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru a'i ddyrannu i Brif Grŵp Gwariant (MEG) y Gymraeg ac Addysg i gefnogi awdurdodau lleol gyda chostau [dyfarniad cyflog](#) 2022-23 i athrawon sy'n disgyn ym mlwyddyn ariannol 2023-24 a chan sicrhau cyflog cydradd ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

2.2 Gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol 16 (IFRS16) – Lesoedd

Mae cyllideb atodol gyntaf 2023-24 yn gweithredu effeithiau cyllidebol y newidiadau i'r ffordd y mae trefniadau lesio'n cael eu hadlewyrchu yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru yn dilyn gweithredu IFRS 16.

Mabwysiadwyd y safon newydd gan y sector cyhoeddus ar 1 Ebrill 2022 ac fe'i hadlewyrchwyd gyntaf yng Nghyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022.

Mae IFRS 16 yn nodi'r egwyddorion ar gyfer cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu lesoedd. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o lesoedd, ac eithrio'r rhai ar gyfer eitemau gwerth isel neu am lai na blwyddyn, gael eu trin yn y datganiadau ariannol yn gymaradwy ag asedau a berchnogir.

Mae IFRS 16 yn dod â'r mwyafrif o lesoedd i'r fantolen. Ar gyfer y lesoedd hynny, mae tair effaith ar gyllidebau adnoddau (RDEL) a chyfalaf (CDEL):

- gwariant cyfalaf (CDEL) ar ddechrau'r les, ar gyfer yr ased a gydnabyddir ar y fantolen;
- dibrisiant wedi'i neilltuo (RDEL anghyllidol), oherwydd dibrisiant ar yr ased a lesiwyd dros oes y les;
- gwariant adnoddau nad yw'n cael ei neilltuo (RDEL cyllidol) ar gyfer y llog a gafwyd dros oes y les.

Ceir effeithiau bach ar gyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), sef cyfalaf a refeniw mewn perthynas â lesoedd 'hedyn pupur' (h.y. lesoedd gyda lefel enwol o daliad les) a darpariaethau ar gyfer dadfeiliadau.

Dim ond i lesioedd newydd a lesioedd wedi'u hadnewyddu o 2022-23 y mae'r tâl a godir ar CDEL yn gymwys. Bydd dibrisiant a llog yn gymwys i bob les a asesir o dan IFRS16 o 2022-23.

Mae goblygiadau aiddosbarthu'r gyllideb yn sgil mabwysiadu IFRS16 ar gyfer cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol, h.y. 2022-23 i 2024-25, yn gyfrifoldeb i Drysorlys Ei Fawrhydi. Gan fod y setliad blaenorol yn cynnwys RDEL ar gyfer y taliadau lesioedd ar lesioedd presennol, mae rhan o'r aiddosbarthu yn ostyngiad i gyllideb RDEL (cyllidol) gan nad oes angen hyn mwyach. Bydd arian parod yn parhau i fod ar gael i wneud taliadau lesioedd, ond ni fydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu mwyach drwy'r gyllideb RDEL (cyllidol).

Nid yw gweithredu IFRS16 yn effeithio ar y pŵer gwario presennol. Mae'r addasiadau yn y gyllideb atodol hon yn adlewyrchu'r newidiadau i'r ffordd y mae'n ofynnol bellach adrodd ar drefniadau lesio o fewn y cynlluniau presennol mewn cyllidebau.

Mae gweithredu IFRS 16 hefyd yn gymwys i Gomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru. Lle bo angen, mae pob un o'r cyrff hynny wedi darparu Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'r newidiadau y mae eu hangen. Mae'r newidiadau hynny bellach yn cael eu hadlewyrchu yn y gyllideb atodol hon.

Yr addasiad cyffredinol i gyllideb Cymru o ganlyniad i weithredu IFRS16 yw:

- Gostyngiad o £100.118m i RDEL (cyllidol);
- Cynnydd o £104.842m i RDEL (anghyllidol);
- Cynnydd o £435,969m i CDEL (cyfalaf).

Mae manylion y MEGs yr effeithir arnynt i'w gweld yn nhabl 6.1 o Bennod 6.

Mae Tabl 2 yn nodi'r addasiadau y mae eu hangen i gyllideb 2023-24.

Tabl 2 – Newidiadau i Gyllidebau i adlewyrchu gofynion IFRS16

Dyraniadau MEG:	DEL			AME	
	Adnoddau (Cyllidol)	Adnoddau (Anghyllidol)	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf
	£m	£m	£m	£m	£m
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	-40.978	40.433	96.057	1.671	0.456
Cyllid a Llywodraeth Leol	0	0	0	0	0
Y Gymraeg ac Addysg	-0.154	0.170	0	0	0
Newid Hinsawdd	-52.412	55.763	337.220	0	0
Yr Economi	-3.478	3.322	0.295	0	0
Materion Gwledig	0	0	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	-0.043	0.045	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-1.087	1.584	2.397	0	0
CYFANSWM	-98.152	101.317	435.969	1.671	0.456

Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol:	DEL			AME	
	Adnoddau (Cyllidol)	Adnoddau (Anghyllidol)	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf
	£m	£m	£m	£m	£m
Comisiwn y Senedd	-1,750	3.278	0	0	0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-0.191	0.222	0	0	0.028
Archwilio Cymru	-0.025	0.025	0	0	0
CYFANSWM	-1.966	3.525	0	0	0.028

CYFANSWM	-100.118	104.842	435.969	1.671	0.484
-----------------	-----------------	----------------	----------------	--------------	--------------

3. Newidiadau i Gyllideb Cymru ers Cyllideb Derfynol 2023-24

- 3.1** Mae Tablau 3.1 i 3.4 yn amlinellu effaith net yr holl newidiadau i gyllideb Cymru. Mae tabl 3.5 yn crynhoi cyfanswm y dyraniadau yn ôl MEGs.

Tabl 3.1 – Ffynonellau Cyllid Llywodraeth Cymru

ELFENNAU CYLLIDO LLYWODRAETH CYMRU	Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i Hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023
	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYLLIDO ADNODDAU			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyllidol	15,988,511	-226	15,988,285
Anghyllidol	1,582,490	220,764	1,803,254
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	38,000	27,962	65,962
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyllidol	24,546	0	24,546
Anghyllidol	-255,541	1,671	-253,870
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Ardrethi Annomestig	906,000	0	906,000
Cyfradd Treth Incwm Cymru	2,765,500	0	2,765,500
Treth Trafodiadau Tir	312,344	0	312,344
Treth Gwarediadau Tirlenwi	40,802	0	40,802
Prif ad-daliad o'r benthyciad	-6,637	2,183	-4,454
CYFANSWM CYLLIDO ADNODDAU	21,396,015	252,354	21,648,369
CYLLIDO CYFALAF			
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):			
Cyffredinol	2,514,686	539,213	3,053,899
Trafodiadau Ariannol	95,754	-2,992	92,762
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):			
Cyfalaf	1,386,494	456	1,386,950
Cyllido a Ddatganolwyd i Gymru:			
Benthyca	150,000	0	150,000
CYFANSWM CYLLIDO CYFALAF	4,146,934	536,677	4,683,611
CYFANSWM CYLLIDO CYMRU	25,542,949	789,031	26,331,980

Tabl 3.2 – Dyrannu Cyllideb Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd		
	Cyllideb Derfynol 2023-24	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,980,917	151,018	11,131,935
Cyllid a Llywodraeth Leol	6,031,528	54,590	6,086,118
Y Gymraeg ac Addysg	3,432,232	38,788	3,471,020
Newid Hinsawdd	2,989,442	347,456	3,336,898
Yr Economi	604,157	-9,011	595,146
Materion Gwledig	448,706	-1,022	447,684
Cyfiawnder Cymdeithasol	178,288	2,744	181,032
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	362,810	2,840	365,650
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	25,028,080	587,403	25,615,483
Adnoddau heb eu Dyrannu	Adnoddau Cyllidol	12,995	47,100
	Adnoddau Anghyllidol	542,528	119,447
Gor-ddyraniad Cyfalaf Cyffredinol	-98,542	37,495	-61,047
Gor-ddyraniad Trafodiadau Ariannol / Cyfalaf heb ei Dyrannu	-26,143	-2,192	-28,335
Comisiwn y Senedd ^{Nodyn 1}	67,643	-435	67,208
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ^{Nodyn 2}	5,750	213	5,963
Swyddfa Archwilio Cymru	8,452	0	8,452
Y Comisiwn Etholiadol	1,414	0	1,414
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	772	0	772
CYFANSWM CYLLIDEB CYMRU	25,542,949	789,031	26,331,980

Nodiadau

1. Cyflwynodd Comisiwn y Senedd gyllideb atodol ar gyfer 2023-24 i'r Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin 2023. Nododd ostyngiad o £435k yn ei adnoddau cyllidol.
2. Cyflwynodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyllideb atodol ar gyfer 2023-24 i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Mai 2023. Nododd gynnydd o £213k yn ei adnoddau cyllidol.

Tabl 3.3 – Newidiadau i Ddyraniadau Adnoddau MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	CYLLIDOL			ANGHYLLIDOL		
	Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i Hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023	Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i Hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,120,775	8,410	10,129,185	262,926	40,433	303,359
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,900,641	-425	4,900,216	545	0	545
Y Gymraeg ac Addysg	1,778,125	38,618	1,816,743	491,667	170	491,837
Newid Hinsawdd	928,875	-29,270	899,605	236,812	55,763	292,575
Yr Economi	452,457	-12,328	440,129	13,912	3,322	17,234
Materion Gwledig	400,689	-24,022	376,667	10,817	0	10,817
Cyfiawnder Cymdeithasol	136,038	3,199	139,237	210	45	255
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	332,590	-1,141	331,449	17,020	1,584	18,604
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	19,050,190	-16,959	19,033,231	1,033,909	101,317	1,135,226

Tabl 3.4 – Newidiadau i Ddyraniadau Cyfalaf MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	CYFALAF CYFFREDINOL			TRAFODIADAU ARIANNOL		
	Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i Hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023	Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i Hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	378,000	100,048	478,048	0	0	0
Cyllid a Llywodraeth Leol	223,889	55,015	278,904	0	0	0
Y Gymraeg ac Addysg	357,300	0	357,300	14,886	0	14,886
Newid Hinsawdd	1,657,508	320,963	1,978,471	108,770	0	108,770
Yr Economi	81,516	295	81,811	-2,253	-300	-2,553
Materion Gwledig	37,200	23,000	60,200	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	17,000	0	17,000	494	-500	-6
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	10,000	2,397	12,397	0	0	0
Cyfanswm y Dyraniad i MEGs Llywodraeth Cymru	2,762,413	501,718	3,264,131	121,897	-800	121,097

- 3.2** Darperir trosolwg o'r newidiadau i'r ffynonellau cyllid isod a gellir gweld manylion dyraniadau o gronfeydd wrth gefn ym mhennod 6.

Addasiadau i Ffynonellau Cyllid

Adnoddau Cyllidol

- 3.3** Cafwyd cynnydd net o £27,736k yn y llinell sylfaen Adnoddau Cyllidol gan gynnwys:
- Swm ychwanegol o £27,962k a dynnwyd i lawr o gronfeydd wrth gefn;
 - Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £44,222k a chan gynnwys:
 - £23,244k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Gwanwyn 2023 y DU;
 - £20,978k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2023;
 - Trosglwyddiad i mewn o £48,528k o Drysorlys EF mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - Trosglwyddiad i mewn o £3,104k o Drysorlys EF mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngor Ariannol;
 - Trosglwyddiad i mewn o £3,963k o'r Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd;
 - Trosglwyddiad Peirianwaith y Llywodraeth i mewn o £636k mewn perthynas â chyllid Seiberddiogelwch Cenedlaethol o'r Weinyddiaeth Amddiffyn;
 - Trosglwyddiad i mewn o £460k o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir;
 - Trosglwyddiad i mewn o £5k o CTheF mewn perthynas ag amodoldeb treth Awdurdodau Lleol;
 - Cynnydd o £1k mewn perthynas ag addasiad talgrynnu i'r Addasiad i'r Grant Bloc;
 - Trosglwyddiad o £100,118k allan mewn perthynas â gweithredu IFRS16;

- Trosglwyddiad o £911k allan i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) mewn perthynas â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol;
- Trosglwyddiad o £100k allan i Drysorlys EF mewn perthynas ag ariannu'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol am waith a wnaed ar ragolygon trethi datganoledig;
- Trosglwyddiad o £16k allan i Swyddfa'r Cabinet mewn perthynas â chyfraniad Llywodraeth Cymru at 'Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2023'.

Adnoddau Anghyllidol

3.4 Ers y Gyllideb Derfynol, mae llinell sylfaen adnoddau anghyllidol wedi cynyddu £220,764k gan gynnwys:

- £115,922k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2023;
- Trosglwyddiad o £104,842k mewn perthynas â gweithredu IFRS16.

Cyllido Datganoledig Cymru

3.5 Nid oes unrhyw newidiadau i'r incwm treth datganoledig yn y gyllideb atodol hon – mae'r rhagolygon yn parhau i adlewyrchu'r rhai a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol.

Oherwydd newidiadau mewn cyfraddau llog, mae'r swm sy'n ofynnol i ad-dalu prif fenthyciadau wedi gostwng ers y Gyllideb Derfynol. Mae hyn yn golygu bod cynnydd o £2,183k yn y cyllid sydd ar gael.

Cyfalaf Cyffredinol

3.6 Cafwyd cynnydd net o £539,213k yn llinell sylfaen cyfalaf cyffredinol gan gynnwys:

- Cynnydd o symiau canlyniadol Barnett yn dod i gyfanswm o £37,495k a chan gynnwys;
 - £22,923k a ddaeth i law adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2023;

➤ £14,563k mewn perthynas â chyllid a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Gwanwyn 2023 y DU.

- Cynnydd mewn ychwanegiadau nad ydynt yn rhai Barnett o £58,031k mewn perthynas â chyllid ar gyfer Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf;
- Cynnydd o £435,969k mewn perthynas â gweithredu IFRS16;
- Trosglwyddiad i mewn o £9,793k o'r Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd;
- Trosglwyddiad o £2,075k allan i DCMS mewn perthynas â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Cyfalaf Trafodiadau Ariannol

3.7 Mae llinell sylfaen trafodiadau ariannol wedi gostwng £2,992k o ganlyniad i symiau canlyniadol negatif a ddidynnwyd adeg Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU ym mis Mai 2023.

Tabl 3.5 – Crynodeb o Gyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru

CYFANSWM DYRANIADAU MEG 2023-24 yn ôl y GYLLIDEB ATODOL										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			AME			CYFANSWM DYRANIAD MEG
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,129,185	303,359	10,432,544	478,048	0	478,048	220,887	456	221,343	11,131,935
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,900,216	545	4,900,761	278,904	0	278,904	906,453	0	906,453	6,086,118
Y Gymraeg ac Addysg	1,816,743	491,837	2,308,580	357,300	14,886	372,186	-596,212	1,386,466	790,254	3,471,020
Newid Hinsawdd	899,605	292,575	1,192,180	1,978,471	108,770	2,087,241	57,477	0	57,477	3,336,898
Yr Economi	440,129	17,234	457,363	81,811	-2,553	79,258	58,525	0	58,525	595,146
Materion Gwledig	376,667	10,817	387,484	60,200	0	60,200	0	0	0	447,684
Cyfiawnder Cymdeithasol	139,237	255	139,492	17,000	-6	16,994	24,546	0	24,546	181,032
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	331,449	18,604	350,053	12,397	0	12,397	3,200	0	3,200	365,650
CYFANSWM Y DYRANIADAU I MEGs LLYWODRAETH CYMRU	19,033,231	1,135,226	20,168,457	3,264,131	121,097	3,385,228	674,876	1,386,922	2,061,798	25,615,483

4. Trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion

4.1 Cafwyd trosglwyddiadau lluosog rhwng portffolios y Gweinidogion yn y Gyllideb Atodol hon yn dod i gyfanswm o £19,757k. Mae effaith net y trosglwyddiadau ar bob MEG wedi'i chrynhoi yn y tabl isod:

	Adnoddau Cyllidol £'000			Cyfalaf £'000		
	I	O	Trosglwyddiadau Net	I	O	Trosglwyddiadau Net
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	1,400	-1,000	400	3,991	0	3,991
Cyllid a Llywodraeth Leol	0	-496	-496	0	-3,016	-3,016
Y Gymraeg ac Addysg	11,074	-264	10,810	0	0	0
Newid Hinsawdd	1,100	-4,010	-2,910	0	-975	-975
Yr Economi	24	-8,874	-8,850	0	0	0
Materion Gwledig	0	-1,022	-1,022	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	2,106	0	2,106	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	62	-100	-38	0	0	0
	15,766	-15,766	0	3,991	-3,991	0

4.2 Mae manylion y trosglwyddiadau dros £1m fel a ganlyn:

Adnoddau Cyllidol

4.3 Tri throsglwyddiad yn dod i gyfanswm o £7,374k o MEG yr Economi i MEG y Gymraeg ac Addysg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £4,374k o'r BEL Prentisiaethau i BEL Gwariant Rhaglen Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar gyfer Prentisiaethau Gradd;
- £3,000k o BEL Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warant Pobl Ifanc i BEL Darpariaeth Ôl-16 gan gynnwys:
 - £2,000k mewn perthynas â Biwroau Cyflogaeth;
 - £1,000k mewn perthynas â'r Cynllun Peilot Sgiliau Sero Net.

- 4.4** Trosglwyddiad o £3,700k o'r BEL Digartrefedd o fewn y MEG Newid Hinsawdd i'r BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â Digartrefedd Ieuenctid.
- 4.5** Trosglwyddiad o £1,400k o'r BEL Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol o fewn MEG yr Economi i'r BEL Cyllidebau Eraill y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chyllid ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- 4.6** Trosglwyddiad o £1,000k o'r BEL Cymru Iachach o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r BEL Cynhwysiant Digidol o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas â chyfraniad at y gronfa Cynhwysiant Digidol ar gyfer y rhaglen Iechyd a gaffaelwyd.
- 4.7** Trosglwyddiad o £1,000k o'r BEL Cynlluniau Buddsoddi Gwledig o fewn y MEG Materion Gwledig i'r BEL Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn y MEG Newid Hinsawdd mewn perthynas â chyllid y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol.

Cyfalaf Cyffredinol

- 4.8** Trosglwyddiad o £3,016k o'r BEL Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol i'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag estyn ac ailosod Fferm Solar Brynwhillach Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

5. Trosglwyddiadau o fewn Portffolios y Gweinidogion

5.1 Yn ogystal â'r trosglwyddiadau rhwng Portffolios y Gweinidogion a nodir ym mhennod 4, mae nifer o drosglwyddiadau rhwng sawl BEL o fewn yr un portffolios ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y Tablau BEL cyhoeddedig. Mae'r rhain yn gyffredinol yn weinyddol eu natur ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar gyfansymiau'r MEG unigol. Nodir isod y MEGs lle mae'r trosglwyddiadau hyn yn fwy nag £1m:

lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5.2 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £13,813k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gryno, mae'r trosglwyddiadau hyn:

- yn alinio'r dyraniadau i Fyrddau lechyd Lleol yn gywir;
- yn alinio dyraniadau i ariannu ymrwymadau penodol.

Y Gymraeg ac Addysg

5.3 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £8,146k wedi digwydd rhwng BELs o fewn MEG y Gymraeg ac Addysg. Dyma'r rhai mwyaf sylweddol o'r rhain:

- £2,500k o'r BEL Trechu Dadrithiad i'r BEL Ysgolion Cymunedol i hybu cyllid o fewn Ysgolion Cymunedol ar gyfer Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd;
- £2,300k o'r BEL Darpariaeth Ôl-16 i'r BEL Gwariant Rhaglen CCAUC i gefnogi dull system gyfan ar gyfer lechyd Meddwl;
- £1,675k o BEL y Gymraeg mewn Addysg i BEL y Gymraeg mewn perthynas â chyllid ar gyfer y Ganolfan Genedlaethol.

Newid Hinsawdd

5.4 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £3,455k a throsglwyddiadau cyfalaf gwerth cyfanswm o £10,800k wedi digwydd rhwng BELs o fewn y MEG Newid Hinsawdd. Y rhai mwyaf sylweddol o'r rhain yw £2,470k o gyllid adnoddau o'r BEL Ynni Glân a £10,000k o

gyfalaf cyffredinol o BEL Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i BEL Ynni Cymru sydd newydd ei greu.

Yr Economi

5.5 Mae trosglwyddiadau adnoddau lluosog gwerth cyfanswm o £28,193k wedi digwydd rhwng BELs o fewn MEG yr Economi.

Mae'r rhai mwyaf sylweddol yn ymwneud â'r BEL Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warrant Pobl Ifanc a dyma'r manylion:

- £23,034k o'r BEL Cymunedau am Waith yn sgil uno'r ddau BEL;
- £1,500k i BEL Busnes Cymru i gefnogi pobl ifanc o dan 25 mlwydd oed i ddysgu am fusnes a chymryd camau gweithgar tuag at fod yn hunangyflogedig;
- £1,268k i'r BEL Prentisiaethau er mwyn cydweddu'r cynllun gweithgarwch TGCh ar gyfer 2023-24 yn well â datblygiadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

5.6 Mae dau drosglwyddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £5,355k wedi digwydd rhwng BELs yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Mae'r ddau'n ymwneud â throsglwyddo arian o'r BEL Gwariant Gweinyddu Cyffredinol er mwyn cydweddu cyllidebau â chyfrifoldebau dirprwyedig. Dyma'r manylion:

- £4,355k i'r BEL Costau TG;
- £1,000k i'r BEL Galluogi Llywodraeth.

6. Newidiadau i Gronfeydd wrth Gefn

6.1 Mae'r gyllideb hon yn unioni nifer o ddyraniadau i gronfeydd wrth gefn ac ohonynt. Mae rhestr gyflawn i'w chael yn nhabl 6.1.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.2 Gwnaed cyfanswm o £112,645k o ddyraniadau o'r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys £7,425k mewn perthynas â gweithredu IFRS16, a'r dyraniadau MEG canlynol:

- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:
 - £48,528k i'r BEL Dyraniadau Craidd y GIG mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudo;
 - £460k i BEL Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau mewn perthynas â'r Gronfa Canlyniadau a Rennir.
- Cyllid a Llywodraeth Leol:
 - £166k i'r BEL Cost Benthycu oherwydd newidiadau mewn cyfraddau llog;
 - £5k i'r Bel Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllid a ddaeth i law o CThEF yn ymwneud ag amodoldeb treth.
- Y Gymraeg ac Addysg:
 - £21,300k i'r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon mewn perthynas â dyfarniad cyflog athrawon;
 - £6,662k i'r BEL Darpariaeth Ôl-16 i gefnogi goblygiadau'r dyfarniad cyflog ar gyfer ôl-16 i sicrhau cyflog cydradd â chyflog athrawon.

- Newid Hinsawdd:
 - £3,963k i'r BEL Trafnidiaeth Cymru mewn perthynas â'r cyllid a ddaeth i law o'r Adran Drafnidiaeth yn ymwneud â Llinellau Craidd y Cymoedd.
- Cyfiawnder Cymdeithasol:
 - £1,136k i'r BEL Gwasanaethau Cyngori mewn perthynas â chyngor ar ddyledion.

Trosglwyddiadau i Gronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn

6.3 Gwnaed cyfanswm o £129,604k o drosglwyddiadau i'r cronfeydd adnoddau cyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £105,577k mewn perthynas â gweithredu IFRS16;
- £1,027k mewn perthynas â throsglwyddiadau cyllideb a dalwyd i adrannau llywodraeth eraill adeg ymarfer Prif Amcangyfrifon Llywodraeth y DU. Roedd y rhain yn cynnwys:
 - £100k o'r BEL Trethi Datganoledig yn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â'r taliad i Drysorlys EF am ddarparu rhagolygon treth annibynnol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol;
 - £911k ar draws BELs lluosog o fewn y MEG Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r taliad i DCMS ar gyfer rhaglenni lluosog;
 - £16k o'r BEL Gwariant Gweinyddu Cyffredinol o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â'r taliad i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyfraniad Llywodraeth Cymru at 'Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2023'.

Mae manylion llawn y trosglwyddiadau hyn ar gael yn nhabl 6.1 isod.

Dyraniadau o Gronfeydd Adnoddau Anghyllidol Wrth Gefn

6.4 Gwnaed dyraniadau gwerth cyfanswm o £101,317k, o gronfeydd adnoddau anghyllidol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon. Mae pob un o'r dyraniadau hyn yn ymwneud â gweithredu IFRS16.

Dyraniadau o Gronfeydd Cyfalaf Cyffredinol Wrth Gefn

- 6.5** Gwnaed dyraniadau gwerth cyfanswm o £526,793k, o gronfeydd cyfalaf cyffredinol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon, sef:
- £435,969k mewn perthynas â gweithredu IFRS16;
 - £58,031k i'r BEL Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf o fewn y MEG Cyllid a Llywodraeth Leol mewn perthynas â Bargeinion Twf;
 - £27,000k mewn perthynas â Dinas Caerdydd;
 - £13,086k mewn perthynas â Bae Abertawe;
 - £12,445k mewn perthynas â Gogledd Cymru;
 - £5,500k mewn perthynas â Chanolbarth Cymru.
 - £9,793k i'r BEL Trafnidiaeth Cymru o fewn y MEG Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r cyllid a ddaeth i law o'r Adran Drafnidiaeth mewn perthynas â Llinellau Craidd y Cymoedd.

Dyraniadau i'r Gronfa Cyfalaf Trafodiadau Ariannol Wrth Gefn

- 6.6** Gwnaed dau drosglwyddiad yn ôl i'r cronfeydd cyfalaf trafodiadau ariannol wrth gefn yn y gyllideb atodol hon:
- £300k o'r BEL Cronfeydd Cyllid Busnes o fewn MEG yr Economi yn ymwneud â'r llithriant incwm o Gronfa Twf Cyfalaf Cymru o 2022-23;
 - £500k o'r BEL Cynhwysiant Ariannol o fewn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol gan fod yna arwyddion nad oes angen y dyraniad presennol er mwyn cyrraedd y trothwyon gofynnol. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei hadolygu.

Newidiadau Cyllideb

- 6.7** O fewn y MEG Newid Hinsawdd a'r MEG Materion Gwledig mae newidiadau lluosog wedi bod rhwng cronfeydd adnoddau cyllidol a chyfalaf cyffredinol wrth gefn. Sero yw'r effaith net ar y ddwy gronfa wrth gefn ond darperir manylion llawn y newidiadau yn nhabl 6.1 isod.

Mae tabl 6.1 isod yn adlewyrchu'r holl symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn.

Tabl 6.1 - Newidiadau i Gronfeydd wrth gefn 2023-24 ers y Gyllideb Derfynol a'r Dyranïadau o Gronfeydd Wrth Gefn sy'n cael eu gwneud yn y Gyllideb Atodol hon

	£000oedd						
	Adnoddau Cyllidol	Adnoddau Anghyllidol	Cyfanswm yr Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Cyfalaf Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm cyfalaf	Cyfanswm
Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb Derfynol	12,995	542,528	555,523	-98,542	-26,143	-124,685	430,838
Trosglwyddiadau a symiau canlyniadol ers y Gyllideb Derfynol	-226	220,764	220,538	539,213	-2,992	536,221	756,759
Gostyngiad yn y prif ad-daliad o'r benthyciad	2,183	0	2,183	0	0	0	2,183
Tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru	27,962	0	27,962	0	0	0	27,962
Cronfeydd Diwygiedig	42,914	763,292	806,206	440,671	-29,135	411,536	1,217,742
NEWIDIADAU:							
IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL							
IFRS 16:	40,978	-40,433	545	-96,057	0	-96,057	-95,512
Dyranïadau Craidd y GIG	35,459	-38,787	-3,328	-96,057	0	-96,057	-99,385
Dyranïadau Uniongyrchol Eraill y GIG	1,545	0	1,545	0	0	0	1,545
Iechyd a Gofal Digidol Cymru	1,091	-1,053	38	0	0	0	38
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	307	287	20	0	0	0	20
Iechyd Cyhoeddus Cymru	2,224	0	2,224	0	0	0	2,224
Gofal Cymdeithasol Cymru	260	-211	49	0	0	0	49
Cyllidebau Eraill y GIG	92	-95	-3	0	0	0	-3
Eraill:	-48,988	0	-48,988	0	0	0	-48,988

Dyraniadau Craidd y GIG – Blaenswm y Gordal Iechyd Mewnffudo o'r Swyddfa Gartref	-48,528	0	-48,528	0	0	0	-48,528
Cronfa'r Cynllun Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau - Cyllid y Gronfa Canlyniadau a Rennir o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder	-460	0	-460	0	0	0	-460
IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL	-8,010	-40,433	-48,443	-96,057	0	-96,057	-144,500
CYLLID A LLYWODRAETH LEOL							
Eraill:	-71	0	-71	-58,031	0	-58,031	-58,102
Cyllid Refeniw Cyffredinol Llywodraeth Leol – Amodoldeb Treth CThEF	-5	0	-5	0	0	0	-5
Trethi Datganoledig - Costau OBR yn darparu rhagolygon treth annibynnol	100	0	100	0	0	0	100
Cost Benthycia – Cynnydd yng nghost benthycia	-166	0	-166	0	0	0	-166
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf – Bargaen Twf Gogledd Cymru	0	0	0	-12,445		-12,445	-12,445
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf – Bargaen Twf Bae Abertawe	0	0	0	-13,086		-13,086	-13,086
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf – Bargaen Twf Dinas Caerdydd	0	0	0	-27,000		-27,000	-27,000
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf – Canolbarth Cymru	0	0	0	-5,500	0	-5,500	-5,500
CYLLID A LLYWODRAETH LEOL	-71	0	-71	-58,031	0	-58,031	-58,102
Y GYMRAEG AC ADDYSG							
IFRS 16:	154	-170	-16	0	0	0	-16
Cymwysterau Cymru	79	-94	-15			0	-15

Comisiynydd y Gymraeg	75	-76	-1			0	-1
Eraill:	-27,962	0	-27,962	0	0	0	-27,962
Datblygu a Chymorth Athrawon – Dyfarniad cyflog	-21,300	0	-21,300	0	0	0	-21,300
Ôl-16 – Cydraddoldeb â dyfarniad cyflog athrawon	-6,662	0	-6,662	0	0	0	-6,662
Y GYMRAEG AC ADDYSG	-27,808	-170	-27,978	0	0	0	-27,978
NEWID HINSAWDD							
IFRS 16:	52,412	-55,763	-3,351	-337,220	0	-337,220	-340,571
Trafnidiaeth Cymru	52,412	-55,763	-3,351	-337,220	0	-337,220	-340,571
Eraill:	-26,052	0	-26,052	15,282	0	15,282	-10,770
Ynni Morol – Newid cyllideb	-600	0	-600	600	0	600	0
Bioamrywiaeth, Tystiolaeth ac Iechyd Planhigion – Trosglwyddiad i DCMS	174	0	174	0	0	0	174
Coedwigaeth – Trosglwyddiadau i DCMS a Newid cyllideb	512	0	512	7,075	0	7,075	7,587
Cyfoeth Naturiol Cymru – Newid cyllideb	-17,400	0	-17,400	0	0	0	-17,400
Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol – Newid cyllideb	0	0	0	12,400	0	12,400	12,400
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Trosglwyddiad i DCMS	225	0	225	0	0	0	225
Trafnidiaeth Cymru – Trosglwyddiad o'r Adran Drafndiaeth	-3,963	0	-3,963	-9,793	0	-9,793	-13,756
Teithio Cynaliadwy a Llesol – Newid cyllideb	-5,000	0	-5,000	5,000	0	5,000	0
NEWID HINSAWDD	26,360	-55,763	-29,403	-321,938	0	-321,938	-351,341
YR ECONOMI							

IFRS 16:	3,478	-3,322	156	-295	0	-295	-139
Busnes a Datblygu Economaidd Rhanbarthol	0	-48	-48	0		0	-48
Seilwaith Eiddo	2,589	-2,371	218	0	0	0	218
Seilwaith TGCh	26	-32	-6	0	0	0	-6
Cyflogadwyedd gan gynnwys y Warrant Pobl Ifanc	570	-570	0	-295	0	-295	-295
Cyngor Celfyddydau Cymru	157	-141	16	0	0	0	16
Cadw	50	-51	-1	0	0	0	-1
Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru	82	-105	-23	0	0	0	-23
Chwaraeon Cymru	4	-4	0	0	0	0	0
Eraill:	0	0	0	0	300	300	300
Cronfeydd Cyllid Busnes – Ad-daliad Trafodiad Ariannol	0	0	0	0	300	300	300
YR ECONOMI	3,478	-3,322	156	-295	300	5	161
MATERION GWLEDIG							
Eraill:	23,000	0	23,000	-23,000	0	-23,000	0
Cynlluniau Buddsoddi Gwledig – Newid cyllideb	23,000	0	23,000	-23,000	0	-23,000	0
MATERION GWLEDIG	23,000	0	23,000	-23,000	0	-23,000	0
CYFIAWNDER CYMDEITHASOL							
IFRS 16:	43	-45	-2	0	0	0	-2
Y Comisiynydd Pobl Hŷn	14	-16	-2	0	0	0	-2
Y Comisiynydd Plant	29	-29	0	0	0	0	0
Eraill:	-1,136	0	-1,136	0	500	500	-636
Gwasanaethau Cyngori – Cyllid	-1,136	0	-1,136	0	0	0	-1,136

Cyngor ar Ddyled							
Cynhwysiant Ariannol – Dychwelyd dyraniad Trafodiad Ariannol	0	0	0	0	500	500	500
CYFIAWNDER CYMDEITHASOL	-1,093	-45	-1,138	0	500	500	-638
GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU							
IFRS 16:	1,087	-1,584	-497	-2,397	0	-2,397	-2,894
Gwariant Gweinyddu Cyffredinol	1,076	-1,584	-508	-2,397	0	-2,397	-2,905
Cysylltiadau Rhyngwladol	11	0	11	0	0	0	11
Eraill:	16	0	16	0	0	0	16
Gwariant Gweinyddu Cyffredinol – Cyfraniad i Swyddfa'r Cabinet ar gyfer 'Gwasanaeth Sifil yn Fyw 2023'	16	0	16	0	0	0	16
GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU	1,103	-1,584	-481	-2,397	0	-2,397	-2,878
NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN							
Comisiwn y Senedd	435	0	435	0	0	0	435
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-213	0	-213	0	0	0	-213
Archwilio Cymru	0	0	0	0		0	0
NEWIDIADAU ERAILL SY'N EFFEITHIO AR GRONFEYDD WRTH GEFN	222	0	222	0	0	0	222
Cronfeydd Wrth Gefn yn y Gyllideb hon	60,095	661,975	722,070	-61,047	-28,335	-89,382	632,688

Cronfa Wrth Gefn Cymru

6.8 Caiff y balansau sy'n cael eu dal yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru eu diweddarau bob blwyddyn ariannol i ystyried y symudiadau canlynol:

- Cynnydd oherwydd tanwariant sy'n dod i'r amlwg ar ôl cyfrifo'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol;
- Gostyngiadau oherwydd y symiau a dynnwyd i lawr o'r Gronfa Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Y terfynau tynnu i lawr blynyddol o Gronfa Wrth Gefn Cymru yw £125m o ran adnoddau a £50m o ran cyfalaf. Gall y cyfalaf a dynnir i lawr fod yn gyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodiadau ariannol.

Yn eithriadol ar gyfer 2023-24 yn unig, mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi hepgor y terfynau tynnu i lawr gan felly ganiatáu i Lywodraeth Cymru dynnu i lawr adnoddau a chyfalaf hyd at y symiau uchaf sydd ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru.

Mae tabl 6.2 isod yn dangos y symiau wedi'u cadarnhau sy'n cael eu dal yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar hyn o bryd.

Tabl 6.2 - Balansau sy'n cael eu dal yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar hyn o bryd

SYMUDIADAU	£000oedd		
	Adnoddau nad ydynt wedi'u Neilltuo	Cyfalaf Cyffredinol	Cyfalaf Trafodiadau Ariannol
Balans a ddygwyd ymlaen o 2021-22	242,352	61,596	0
Tynnu i lawr yn ystod y flwyddyn ar gyfer 2022-23	(125,000)	(50,000)	0
Tanwariant o Alldro Terfynol 2022-23	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
Swm a dynnwyd i lawr sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb atodol hon	(65,962)	0	0
Y Balans Presennol sydd ar gael yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru	51,390	11,596	0

7. Cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

- 7.1** Roedd y cyllidebau AME y manylir arnynt yn y Gyllideb Derfynol 2023-24 yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf a ddarparwyd i Drysorlys EF.
- 7.2** Mae'r newidiadau a adlewyrchir yn y Gyllideb Atodol gyntaf yn ymwneud yn unig ag effaith gweithredu IFRS16 fel yr amlinellir ym mhennod 2.

Mae tabl 7.1 isod yn nodi'r cyllidebau AME cyfredol.

Tabl 7.1 – Newidiadau i Ddyraniadau AME MEG Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	£000oedd					
	ADNODDAU			CYFALAF		
	Cynlluniau Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i Hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023	Cynlluniau Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i Hailddatgan)	Newidiadau	Cyllideb Atodol 2023-24 Cynlluniau Newydd Mehefin 2023
Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol	219,216	1,671	220,887	0	456	456
Cyllid a Llywodraeth Leol	906,453	0	906,453	0	0	0
Y Gymraeg ac Addysg	-596,212	0	-596,212	1,386,466	0	1,386,466
Newid Hinsawdd	57,477	0	57,477	0	0	0
Yr Economi	58,525	0	58,525	0	0	0
Materion Gwledig	0	0	0	0	0	0
Cyfiawnder Cymdeithasol	24,546	0	24,546	0	0	0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	3,200	0	3,200	0	0	0
Cyfanswm Dyraniad i Lywodraeth Cymru	673,205	1,671	674,876	1,386,466	456	1,386,922

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllidebau'r Portffolios yn Nhablau'r Camau Gweithredu a'r rhai yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r Nodyn Esboniadol yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon, sy'n nodi'r newidiadau i'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2022-23 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn y nodyn hwn yn defnyddio cyfansymiau rheoli Trysorlys EF ac yn cyd-fynd â Thablau'r BEL. Er hynny, mae'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol yn cyd-fynd â'r Datganiad o Alldro Adnoddau a ddefnyddir yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru ac sy'n cael ei baratoi ar sail ychydig yn wahanol.

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys eitemau nad ydynt yn sgorio fel rhan o'r 'Adnoddau sy'n Ofynnol' gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn darparu cysoniad rhwng y ddau yn ôl pob portffolio.

CYLLIDEB ATODOL 2023-24

£000oedd

	Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyllid a Llywodraeth Leol	Y Gymraeg ac Addysg	Newid Hinsawdd	Yr Economi	Materion Gwledig	Cyfiawnder Cymdeithasol	Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	CYFANSWM
Adnoddau	10,432,544	4,900,761	2,308,580	1,192,180	457,363	387,484	139,492	350,053	20,168,457
Cyfalaf	478,048	278,904	372,186	2,087,241	79,258	60,200	16,994	12,397	3,385,228
AME Adnoddau	220,887	906,453	-596,212	57,477	58,525	0	24,546	3,200	674,876
AME Cyfalaf	456	0	1,386,466	0	0	0	0	0	1,386,922
CYFANSWM Y GWARIANT A REOLIR	11,131,935	6,086,118	3,471,020	3,336,898	595,146	447,684	181,032	365,650	25,615,483
Cysoni ag Adnoddau									
Defnyddio Adnoddau – Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	-151	0	-750	80,000	-33,693	0	0	0	45,406
Benthyca â Chymorth	0	-88,800	0	0	0	0	0	0	-88,800
Costau Casglu Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol	-906	0	0	0	0	0	0	0	-906
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu)	0	-911,172	0	0	0	0	0	0	-911,172
Taliadau Llog ar Fenthyciadau	0	-7,008	0	0	0	0	0	0	-7,008
Menter Cyllid Preifat	0	0	0	-10,070	0	0	0	0	-10,070
ADNODDAU Y GWNAED CAIS AMDANYNT	11,130,878	5,079,138	3,470,270	3,406,828	561,453	447,684	181,032	365,650	24,642,933

Atodiad 2 – Ailddatgan y Gyllideb Derfynol 2023-24

Y Gyllideb Derfynol 2023-24, Chwefror 2023										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,120,775	262,926	10,383,701	378,000	-	378,000	219,216	-	219,216	10,980,917
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,900,641	545	4,901,186	223,889	-	223,889	906,453	-	906,453	6,031,528
Y Gymraeg ac Addysg	1,778,125	491,667	2,269,792	357,300	14,886	372,186	(596,212)	1,386,466	790,254	3,432,232
Newid Hinsawdd	919,626	236,812	1,156,438	1,632,983	108,770	1,741,753	57,477	-	57,477	2,955,668
Yr Economi	452,457	13,912	466,369	81,516	(2,253)	79,263	58,525	-	58,525	604,157
Materion Gwledig	409,938	10,817	420,755	61,725	-	61,725	-	-	-	482,480
Cyfiawnder Cymdeithasol	136,038	210	136,248	17,000	494	17,494	24,546	-	24,546	178,288
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	332,590	17,020	349,610	10,000	-	10,000	3,200	-	3,200	362,810
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	19,050,190	1,033,909	20,084,099	2,762,413	121,897	2,884,310	673,205	1,386,466	2,059,671	25,028,080

Y Gyllideb Derfynol, wedi'i hailddatgan										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	10,120,775	262,926	10,383,701	378,000	-	378,000	219,216	-	219,216	10,980,917
Cyllid a Llywodraeth Leol	4,900,641	545	4,901,186	223,889	-	223,889	906,453	-	906,453	6,031,528
Y Gymraeg ac Addysg	1,778,125	491,667	2,269,792	357,300	14,886	372,186	(596,212)	1,386,466	790,254	3,432,232
Newid Hinsawdd	928,875	236,812	1,165,687	1,657,508	108,770	1,766,278	57,477	-	57,477	2,989,442
Yr Economi	452,457	13,912	466,369	81,516	(2,253)	79,263	58,525	-	58,525	604,157
Materion Gwledig	400,689	10,817	411,506	37,200	-	37,200	-	-	-	448,706
Cyfiawnder Cymdeithasol	136,038	210	136,248	17,000	494	17,494	24,546	-	24,546	178,288
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	332,590	17,020	349,610	10,000	-	10,000	3,200	-	3,200	362,810
CYFANSWM Y DYRANIADAU I BRIF GRWPIAU GWARIANT LLYWODRAETH CYMRU	19,050,190	1,033,909	20,084,099	2,762,413	121,897	2,884,310	673,205	1,386,466	2,059,671	25,028,080

SYMUDIADAU										
£000oedd										
PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEGs)	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM MEG
	Cyllidol	Anghyllido	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyllid a Llywodraeth Leol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Y Gymraeg ac Addysg	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Newid Hinsawdd	9,249	-	9,249	24,525	-	24,525	-	-	-	33,774
Yr Economi	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Materion Gwledig	(9,249)	-	(9,249)	(24,525)	-	(24,525)	-	-	-	(33,774)
Cyfiawnder Cymdeithasol	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-
SYMUDIADAU NET	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-

Ailddatgan y Gyllideb Derfynol 2023-24 ar ôl y Newidiadau mewn Cyfrifoldebau Gweinidogol

Nodyn: Os nad oes nodiadau, mae'r symudiadau isod yn golygu symud BELs rhwng MEGs

IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL (H&SS) - Dim Newid										
	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Hailldatgan	10,120,775	262,926	10,383,701	378,000	-	378,000	219,216	-	219,216	10,980,917

CYLLID A LLYWODRAETH LEOL (F&LG) - Dim Newid										
	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Hailldatgan	4,900,641	545	4,901,186	223,889	-	223,889	906,453	-	906,453	6,031,528

Y GYMRAEG AC ADDYSG (E&WL) - Dim Newid										
	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Hailldatgan	1,778,125	491,667	2,269,792	357,300	14,886	372,186	(596,212)	1,386,466	790,254	3,432,232

NEWID HINSAWDD (CC) £000oedd											
Y Gyllideb Derfynol, Chwefror 2023	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM	
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME		
	919,626	236,812	1,156,438	1,632,983	108,770	1,741,753	57,477	-	57,477	2,955,668	
Trosglwyddwyd i mewn:											
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	RA	1,500	-	1,500	-	-	-	-	-	1,500	
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	RA	3,400	-	3,400	16,700	-	16,700	-	-	20,100	
Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles	RA	3,008	-	3,008	2,000	-	2,000	-	-	5,008	
Diogelu'r Amgylchedd ^{Nodyn 1}	RA	694	-	694	-	-	-	-	-	694	
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored ^{Nodyn 2}	RA	647	-	647	5,825	-	5,825	-	-	6,472	
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Hailldatgan		928,875	236,812	1,165,687	1,657,508	108,770	1,766,278	57,477	-	57,477	2,989,442

Nodiadau:

1. Mae'r gyllideb o'r BEL 'Polisi Cemegol a Swm' yn y MEG RA wedi trosglwyddo i'r BEL 'Diogelu'r Amgylchedd' presennol.

2. Mae rhan o'r gyllideb o'r BEL 'Mynediad a Mannau Gwyrdd Cymunedol' yn y MEG RA (bellach wedi'i ailenwi'n BEL 'Rhwng Dynodi Parc Cenedlaethol Newydd') wedi trosglwyddo i'r BEL 'Tirwedd a Hamdden Awyr Agored'.

YR ECONOMI (Econ) - Dim Newid											£000oedd
	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM	
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME		
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Haiddatgan	452,457	13,912	466,369	81,516	(2,253)	79,263	58,525	-	58,525	604,157	

MATERION GWLEDIG (RA)											£000oedd
Y Gyllideb Derfynol, Chwefror 2023	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM	
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME		
	409,938	10,817	420,755	61,725	-	61,725	-	-	-	482,480	
Trosglwyddwyd allan:											
Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi	CC	(1,500)	(1,500)	-	-	-	-	-	-	(1,500)	
Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	CC	(3,400)	(3,400)	(16,700)	-	(16,700)	-	-	-	(20,100)	
Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles	CC	(3,008)	(3,008)	(2,000)	-	(2,000)	-	-	-	(5,008)	
Polisi Cemegol a Sŵn ^{Nodyn 1}	CC	(694)	(694)	-	-	-	-	-	-	(694)	
Rhaglen Dynodi Parc Cenedlaethol Newydd ^{Nodyn 2}	CC	(647)	(647)	(5,825)	-	(5,825)	-	-	-	(6,472)	
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Haiddatgan	400,689	10,817	411,506	37,200	-	37,200	-	-	-	448,706	

Nodiadau:

1. Mae'r gyllideb o'r BEL 'Polisi Cemegol a Sŵn' wedi trosglwyddo i'r BEL 'Diogelu'r Amgylchedd' presennol yn y MEG CC.
2. Mae rhan o'r gyllideb o'r BEL 'Mynediad a Mannau Gwyrdd Cymunedol' (bellach wedi'i ailenwi'n BEL 'Rhaglen Dynodi Parc Cenedlaethol Newydd') wedi trosglwyddo i'r BEL 'Tirwedd a Hamdden Awyr Agored' yn y MEG CC.

CYFIAWNDER CYMDEITHASOL (SJ) - Dim Newid										
	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Haiddatgan	136,038	210	136,248	17,000	494	17,494	24,546	-	24,546	178,288

GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU (CS&A) - Dim Newid										
	Adnoddau			Cyfalaf			Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)			CYFANSWM
	Cyllidol	Anghyllidol	Cyfanswm Adnoddau	Cyfalaf Cyffredinol	Trafodiadau Ariannol	Cyfanswm Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Cyfanswm AME	
Y Gyllideb Derfynol wedi'i Haiddatgan	332,590	17,020	349,610	10,000	-	10,000	3,200	-	3,200	362,810

Atodiad 3 – Geirfa

Cam gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu.
Cwmpasoedd	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynigion y Gyllideb Flynyddol a'r Gyllideb Atodol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG).
Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlfyddyn yn yr un ffordd â'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EF. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw; er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.
Cynnig y Gyllideb	Y dull a ddefnyddir gan Senedd Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.
Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL)	O fewn pob Cam Gweithredu, dyrennir cyllidebau i nifer o is-grwpiau gwariant a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL). Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y BEL ar gael yn: https://llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
Cyfalaf	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw.

Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Terfyn y gyllideb amflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EF mewn Adolygiadau o Wariant.
Dibrisiant	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ond eitem DEL adnoddau anghyllidol ydyw.
Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y taliadau a godir yn uniongyrchol mae taliad cydnabyddiaeth y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
Trafodiadau Ariannol	Dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir defnyddio trafodiadau ariannol. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys EF.
DEL Adnoddau Cyllidol (y cyfeirir ato weithiau fel referniw)	Mae Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran. Cofnodir gwariant ar sail cronïadau. Mae'n cynnwys gwariant ar gyflogau, caffael cyfredol, grantiau cyfredol a chymorthdaliadau.
Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Caiff Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant (MEG). Ceir 8 MEG ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Cyllid a Llywodraeth Leol; Y Gymraeg ac Addysg; Newid Hinsawdd; Yr Economi; Materion Gwledig; Cyfiawnder Cymdeithasol a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
DEL Adnoddau Anghyllidol (y cyfeirir ato weithiau fel referniw 'nad ydyw'n arian parod')	Mae'r gyllideb Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol yr adran mewn perthynas â dibrisiant ac amhariadau benthyciadau i fyfyrwyr. Mae DEL Adnoddau Anghyllidol wedi'i glustnodi ac ni ellir ei ddefnyddio i gyllido gwariant DEL adnoddau cyllidol.
Derbyniadau	Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

Cyllidebu adnoddau	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllidebu adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.
Adolygiad o Wariant	O bryd i'w gilydd mae Trysorlys EF yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett, sef y dull a ddefnyddir i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	Cyfanswm Rheoli gan Drysorlys EF yw hwn sy'n cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol ynghyd â Gwariant a Reolir yn Flynyddol.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.